**CAW52 Unigolyn**

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch Chi

Unigolyn

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu(Cymru)?

Ydw

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Cytunaf fod angen cwricwlwm newydd sy'n benodol ar gyfer Cymru, gyda'r profiad Cymreig yn greiddiol i bob agwedd ohono. Mae'r drefn gyfredol o weithredu Cwricwlwm 'Cenedlaethol' a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr, gyda'r Cwricwlwm Cymreig fel atodiad iddo wedi methu cwrdd ag anghenion Cymru fel cenedl ar wahân. Croesawaf felly gwricwlwm unigryw i Gymru.

### 1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 2. Gweithredu'r Bil

**2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae'r cwricwlwm arfaethedig yn un cysyniadol ac felly'n haniaethol yn unig. Nid yw'n cynnig

arweiniad digonol o ran cynnwys. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn lle hanes Cymru oddi

mewn i Gwricwlwm 2022. Mae'r adroddiad Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru

(2013) wedi dangos pa mor annigonol yw'r sylw a roddir i hanes Cymru mewn llawer iawn o

ysgolion. Ategwyd hynny gan dystiolaeth a gyflwynwyd yn y gorffennol gan amryw o unigolion,

mudiadau a sefydliadau i'r pwyllgor hwn, i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ac i'r

Gweinidog Addysg ei hun. Yn dilyn ymchwiliad trylwyr, argymhellodd y Pwyllgor Diwylliant, y

Gymraeg a Chyfathrebu i'r Gweinidog Addysg y dyllid dynodi corff cyffredin o wybodaeth

sylfaenol o ran hanes Cymru y byddai'n ofynnol i bob ysgol ei gynnwys yn eu meysydd llafur.

Ategaf yr alwad yma (a fyddai'n caniatáu digon o hyblygrwydd i athrawon ddatblygu meysydd

llafur sy'n berthnasol i anghenion lleol eu disgyblion) oherwydd os na wneir hynny, ni fydd

hanes Cymru'n cael ei ddysgu'n effeithiol mewn rhai – os nad llawer – o ysgolion yn y dyfodol

chwaith.

**2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 3. Canlyniadau anfwriadol

**3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae'r Cwricwlwm Drafft yn mynegi droeon ddyheadau clodwiw megis bod angen i ddisgyblion

gael 'cymysgedd o brofiadau . . . sy'n seiliedig ar werthoedd a diwylliant Cymru' neu y 'dylai

dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu hunaniaeth trwy archwilio cwestiynau am ddiwylliant,

iaith ac ymdeimlad o berthyn yn eu hardal leol ac yng Nghymru'. Oherwydd gwrthodiad y

Gweinidog Addysg i dderbyn yr angen i roi cyngor ac arweiniad i ysgolion ar gyflwyno hanes

Cymru mewn modd a fyddai'n arwain at wireddu'r dyheadau hyn yn golygu mai un o

ganlyniadau yw na fydd hanes Cymru'n cael ei ddysgu'n effeithiol yn y dyfodol.

## 4. Goblygiadau ariannol

**4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.**

(*byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.*)

-

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

-